NEWID STRWYTHUR Y GIG YNG NGHYMRU
CRYNODEB O YMGYMHORIAD LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Ar yr 2il o Ebrill 2008 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynigion am rai newidiadau y gellid ei gwneud i'r GIG yng Nghymru. Trefnwyd cyfnod o ymgynghori sy'n gorffen ar y 25ain o Fehefin 2008 ac sy'n rhoi'r cyfle i'r cyhoedd roi eu barn ar y cynigion.

Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu drwy Fyrddau Iechyd Lleol (sy'n trefnu'r cytundebau ar gyfer gwasanaethau iechyd), ac ymddiriedolaethau GIG (sy'n darparu'r gwasanaethau iechyd).

Dyma'r prif newidiadau sydd wedi eu cynnig:

1. Lleihau nifer y Byrddau Iechyd Lleol o ddau-ar-hugain i wyth.

2. Lleihau nifer yr ymddiriedolaethau GIG o ddeg i naw.

3. Trosglwyddo y cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau iechyd yn y gymuned o'r ymddiriedolaethau GIG i'r Byrddau Iechyd Lleol. Felly, bydd y Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol am wasanaethau iechyd cynradd a gwasanaethau yn y gymuned er enghraifft gwasanaethau meddygfeydd teulu, a bydd yr ymddiriedolaethau GIG yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol yn yr ysbytai.

4 Ar hyn o bryd mae'r ymddiriedolaethau GIG yn cael eu hariannu drwy'r Byrddau Iechyd Lleol. Y cynnig yw bod yr ymddiriedolaethau yn cael eu hariannu naill ai yn uniongyrchol o Lywodraeth y Cynulliad, neu o Fwrdd Cenedlaethol newydd y bydd angen ei sefydlu.

5. Mae cyrff GIG angen amrywiaeth o wasanaethau cymorth yn cynnwys gwasanaethau ystadau, cyfreithiol, caffael, gwybodaeth, ag eraill. Ar hyn o bryd, rhannir rheolaeth y gwasanaethau yma rhwng nifer o gyfundrefnau GIG. Yn dilyn y cynnig bod ymddiriedolaethau GIG yn canolbwyntio ar wasanaethau gofal i'r claf, bydd cyfundrefnau eraill yn cymryd cyfrifoldeb am y gwasanaethau cymorth.

Mae gan y cyhoedd nawr y cyfle i roi eu barn ar y newidiadau yma; un ffordd o wneud hyn yw drwy ddanfon llythyr i'ch CIC lleol. Gallwch ymweld a'r wefan www.patienthelp.wales.nhs.uk am fanylion y CIC lleol.

Neu e-bostiwch eich CIC lleol ar: swanseachc@swanseachc.org.uk

Os hoffech rhagor o wybodaeth am y cynigion i newid strwythur y GIG yng Nghymru, gallwch lawrlwytho dogfen gynhwysfawr o:

http://new.wales.gov.uk/consultations/currentconsultation/healandsoccarecurrcons/nhswales/?lang=en